

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

355- Beirniadaeth Rhyddiaith Dysgwyr Bl. 4 ac iau

Beirniad – Nan Jones

Hoffwn ddiolch i'r ymgeiswyr am gystadlu ac i'r athrawon am eu hannog a'u helpu ar gyfer y gystadleuaeth. Er mai nifer fach sydd wedi cystadlu, teimlaf eu bod yn haeddu canmoliaeth am eu hymdrechion.

Defnyddiwyd patrymau ail iaith cadarnhaol gyda amrywiaeth o ansoddeiriau a chymariaethau addas, yn eu disgrifiadau o'r gwahanol fwydydd. Er bod yna ambell i ddiffyg treiglo a gwallau gramadegol yma ac acw, teimlaf bod hyn yn dangos naturioldeb a hyder yr ymgeiswyr i ysgrifennu yn Gymraeg – da iawn nhw!

Hoffwn grybwyll gwaith - JACK MABBETT oherwydd dewisiodd dri gwahanol gymeriad, y fo'i hun, ei chwaer a'i wningen, gan roi rhesymau da am eu hoff a chas fwyd, a DOM oherwydd ei ddefnydd cadarnhaol o'r patrymau ieithyddol.

Dyma'r canlyniad – trwch blewyn oedd rhwng y tri,
3ydd KONAN – Diddorol oedd ei ddisgrifiad am ei hoff fwyd “Vetkoek”, a'i gymhariaeth o fadarch fel gwllithod, a'u bod yn wichlyd! Gorffennodd yn gadarnhaol “Ie, rydw i'n dwlu bwyd.”
2il BOB – Mae o yn esbonio yn glir yn ei frawddeg gyntaf pam ei fod yn lysieuwr, sydd yn glod iddo am fynegi ei farn. Mae Bob yn gorffen yn gadarnhaol fod bwyd yn ei wneud yn hapus!
1af ROBIN GOCH – Tynnodd hwn fy sylw yn syth at y pwnc trwy ddefnyddio “Bwyd, bwyd, bwyd!” ar ddechrau ei ysgrif! Hoffais ei gyfeiriad at wahanol brydau, gan orffen ei ddarn yn gadarnhaol “ Rydw i'n dwli bwyd!”

Diolch unwaith eto am gystadlu, a daliwch ati!

1af - Robin Wakely 2il - Jake Sullivan 3ydd - Kynan Franklyn